# Adrodd a chofnodi marwolaethau gwartheg ar eich daliad

Os bydd gwartheg yn marw ar eich daliad, yn hytrach nag adeg eu lladd, rhaid i chi gofnodi'r farwolaeth a rhoi gwybod i'r BCMS.

### Adrodd ar-lein neu dros y ffôn

Rhaid rhoi gwybod i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) am farwolaeth unrhyw fuwch ar eich daliad o fewn 7 diwrnod i'r farwolaeth. Gallwch roi gwybod am farwolaethau naill ai drwy lenwi ffurflen y System Olrhain Gwartheg (SOG) ar-lein ar wefan y BCMS neu drwy ffonio Llinell hunanwasanaeth y SOG:

- Cymraeg 0345 011 1213
- Saesneg 0345 011 1212

Mae'r ddwy linell ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Rhaid i chi hefyd ddiweddaru cofrestr eich daliad cyn pen 7 diwrnod. Pan fydd y carcas yn gadael eich daliad, nid oes angen i chi roi gwybod am symudiad 'gadael'.

### Dychwelyd y pasbort i BCMS

Ar ôl cofnodi marwolaeth drwy SOG ar-lein, dros y ffôn, drwy'r llinell hunanwasanaeth neu drwy feddalwedd fferm, mae'n rhaid i chi ddychwelyd y pasbort a/neu'r dystysgrif cofrestru i'r BCMS o hyd. Rhaid i'r pasbort gyrraedd o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y farwolaeth. Dylech bostio'r pasbort i:

**BCMS, Curwen Road, Workington, CA14 2DD**

Cofiwch, os ydych wedi rhoi gwybod am farwolaeth ar eich daliad ar-lein neu dros y ffôn, nid oes angen i chi lenwi adran 'Manylion marwolaeth' y pasbort cyn i chi ei anfon i'r BCMS. Os oes gan yr anifail basbort un dudalen, rhaid i chi dicio'r blwch i ddangos eich bod wedi cofnodi'r farwolaeth yn electronig.

### SOG Ar-lein

Gallwch roi gwybod am farwolaeth anifail cofrestredig drwy ddefnyddio hafan y BCMS neu drwy ddefnyddio'r adnodd llwytho i fyny. I roi gwybod am nifer o farwolaethau, gallwch greu ffeil ar gyfer llwytho symudiadau a marwolaethau i fyny ar gyfer SOG Ar-lein.

### Llinell hunanwasanaeth y SOG

Os oes gan yr anifeiliaid dagiau rhifol y DU, gallwch adrodd am eu marwolaeth ar linell hunanwasanaeth y SOG.

Cofiwch gael y canlynol wrth law cyn i chi ffonio:

- eich rhif CPH

- rhifau tagiau clust yr anifeiliaid yr ydych yn adrodd eu bod wedi marw
- dyddiad marwolaeth pob anifail

### Adrodd am farwolaethau drwy'r post

Os byddwch yn adrodd drwy'r post, rhaid i chi lenwi adran 'Manylion marwolaeth' y pasbort a/neu'r dystysgrif gofrestru a'i dychwelyd i'r BCMS fel ei bod yn cyrraedd o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y farwolaeth.

### Rhoi gwybod am anifeiliaid a laddwyd ar y daliad

Os caiff anifail ei ladd ar eich daliad gan filfeddyg neu weithredwr lladd-dy ac yna ei gludo i ladd-dy i'w ddresio, rhaid i chi lenwi adran manylion marwolaeth y pasbort a'i anfon gyda'r anifail i'r lladd-dy. Os caiff anifail ei ladd a'i ddresio ar eich daliad, rhaid i chi lenwi adran manylion marwolaeth y pasbort. Rhaid i'r pasbort ddangos bod yr anifail wedi marw ar y fferm neu'r daliad.

### Adrodd am farwolaeth llo heb ei gofrestru

Os bydd llo yn marw cyn iddo gael ei dagio, nid oes angen i chi roi gwybod i'r BCMS am ei farwolaeth. Fodd bynnag, rhaid i chi ddiweddaru cofrestr eich daliad drwy gofnodi dyddiad geni a marw'r llo yn erbyn manylion y fam.

Os bydd llo yn marw ar ôl cael ei dagio ond cyn i chi wneud cais am basbort, rhaid i chi roi gwybod i'r BCMS am y farwolaeth drwy un o'r canlynol:

- defnyddio'r SOG Ar-lein neu becynnau meddalwedd fferm cydnaws
- defnyddio llinell hunanwasanaeth y SOG
- anfon y ffurflen gais am basbort gwartheg (CPP12) i'r BCMS ar ôl i chi lenwi adrannau 2 a 3 (manylion yr anifail) ac adran 4 (manylion y farwolaeth)

Os bydd llo yn marw ar ôl cael ei dagio a'ch bod eisoes wedi anfon cais am basbort iddo, cysylltwch â'r BCMS i roi gwybod am y farwolaeth.

Cofiwch, **ni** ddylech ailddefnyddio tagiau clust llo wedi marw ar gyfer anifail arall.

### Methu rhoi gwybod am farwolaethau

Gall marwolaethau gwartheg sydd heb eu hadrodd ddod i'r amlwg mewn archwiliad adnabod gwartheg.

Rydych chi'n cyflawni trosedd os ydych:

- yn methu adrodd y farwolaeth o fewn 7 diwrnod
- yn methu dychwelyd y pasbort i'r BCMS o fewn 7 diwrnod

Gallech wynebu cosbau a lleihad mewn taliadau trawsgydymffurfio.

### Anifeiliaid sydd angen profion TSE

Rhaid rhoi prawf TSE ar stoc drig os ydynt:

- dros 48 mis oed ac wedi’u geni yn y DU neu yn un o'r gwledydd a restrir yn y tabl isod

| **Gwlad** | **ID tag clust** | **Gwlad** | **ID tag clust** |
|---|---|---|---|
| Awstria | AT | Yr Eidal | TG |
| Gwlad Belg | BE | Latfia | LV |
| Croatia | HR | Lithwania | LT |
| Cyprus | CY | Lwcsembwrg | LU |
| Y Weriniaeth Tsiec | CZ | Malta | MT |
| Denmarc | DK | Yr Iseldiroedd | NL |
| Estonia | EE | Gwlad Pwyl | PL |
| Y Ffindir | FI | Portiwgal | PT |
| Ffrainc | FR | Gweriniaeth Slofacia | SK |
| Yr Almaen | DE | Slofenia | SI |
| Gwlad Groeg | EL | Sbaen | ES |
| Hwngari | HU | Sweden | SE |
| Iwerddon | IE | Y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) | UK |

- dros 24 mis oed ac wedi’u geni y tu allan i’r DU neu yn un o'r gwledydd a restrir yn y tabl uchod

Gall fod yn anodd adnabod anifeiliaid sydd wedi cael eu hail-dagio a’u mewnforio neu eu symud i Brydain Fawr, ond dangosir y wlad y daethant ohoni ar y pasbort Prydain Fawr a fydd wedi'i roi ar gyfer yr anifail.

Yr unig eithriadau yw anifeiliaid sy'n marw yn Ynys Enlli, Ynys Echni neu Ynys Bŷr, yng Nghymru, sydd wedi'u heithrio rhag profion TSE.

Os bydd anifail yn marw ar eich daliad ac yn gorfod cael profion TSE, rhaid i chi drefnu i'r carcas gael ei gludo i safle samplo wedi'i gymeradwyo. Rhaid i'r prawf TSE fynd yn ei flaen a rhaid cymryd sampl o goesyn yr ymennydd o fewn 24 awr i'r farwolaeth. Gallwch chi wneud hyn drwy’r canlynol:

- cysylltu â'ch casglwr stoc drig lleol
- defnyddio’r Cynllun Stoc Drig Cenedlaethol (NFSS), sy'n cael ei redeg gan y Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol (NFSCo); ffoniwch 01335 320014 i gael gwybodaeth
- trefnu i ddanfon y carcas eich hun i safle samplo wedi'i gymeradwyo

Os byddwch yn danfon y carcas eich hun, rhaid i chi wneud hyn o fewn 72 awr i farwolaeth yr anifail.

Rhaid cael un o’r eitemau canlynol gyda’r carcas pan gaiff ei gludo i'r safle samplo:

- slip torri i ffwrdd y TSE o'r pasbort un dudalen
- cerdyn symud os oes gan yr anifail basbort ar ffurf llyfr siec
- dim dogfennau, os mai dim ond hysbysiad cofrestru sydd gan yr anifail

Dylid rhoi'r dogfennau mewn amlen neu fag plastig clir wrth eu hanfon gyda'r carcas.

Peidiwch ag anfon y pasbort na'r hysbysiad cofrestru gyda'r anifail. Rhaid i chi roi gwybod i'r BCMS am y farwolaeth ac anfon y pasbort neu'r hysbysiad cofrestru fel y disgrifir uchod yn ôl.

**Anifeiliaid nad oes angen profion TSE arnynt**

Rhaid i chi wneud un o'r canlynol:

- anfon y carcas i gytiau cŵn hela neu iard gelanedd
- defnyddio eich casglwr stoc drig lleol
- defnyddio'r Cynllun Stoc Drig Cenedlaethol (NFSS), sy'n cael ei redeg gan y Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol (ffoniwch 01335 320014 i gael gwybodaeth)

Peidiwch â chladdu na llosgi carcasau ar eich daliad (oni bai bod y gwaith llosgi ar eich daliad wedi'i gymeradwyo gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion).